



leadership
matters

Arolwg o brofiadau arweinwyr
ysgolion a cholegau (2016)

ARWEINYDDIAETH

Cynnwys

Cyflwyniad	4
Yr Arolwg	4
Materion Ariannol a Chyllido Ysgolion	5
Recriwtio a Chadw Athrawon	7
Datblygiad Proffesiynol a Gyrfaol i Arweinwyr Ysgolion a Cholegau	8
Iechyd a Lles Arweinwyr Ysgolion a Cholegau	8
Casgliad	10

Cyflwyniad


Rhwng misoedd Gorffennaf a Medi 2016, cynhaliodd NASUWT arolwg o farn arweinwyr ysgolion a cholegau ledled y Deyrnas Unedig, ar natur eu gwaith, y materion a'r problemau y maent yn eu hwynebu ar hyn o bryd, a'u profiadau fel aelodau.

Ymatebodd cyfanswm o 520 o arweinwyr ysgolion a cholegau i'r arolwg, gan gynnwys trawstoriad o benaethiaid, dirprwy benaethiaid a phenaethiaid cynorthwyol ac arweinwyr canol.

Yr Arolwg


Polisiau Addysg y Llywodraeth

Gofynnwyd i'r arweinwyr ysgolion a cholegau a oedd y Llywodraeth yn deall y problemau a'r heriau sy'n effeithio ar waith arweinwyr ysgolion a cholegau. Cafwyd 'na' cryf gan 93.5% o'r ymatebwyr. Pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn credu y byddai polisiau addysg y Llywodraeth yn helpu i wella safonau addysgol y disgyblion yn eu hysgol neu goleg, dywedodd 88% yn bendant na fyddent.



Gofynnwyd i'r arweinwyr ysgolion a cholegau nodi pa agweddau o bolisiau'r Llywodraeth oedd yn achosi'r pryder mwyaf iddynt.

Nodwch, os gwelwch yn dda, pa agweddau o bolisiau'r Llywodraeth sy'n eich pryderu fwyaf. (Ticiwch hyd at bum dewis)



Dywedodd dwy ran o dair (66%) o'r ymatebwyr eu bod yn pryderu am y cyllid a'r arian sydd ar gael, amledd y newidiadau a'r diwygiadau i'r polisiau, ac am y newidiadau i gymwysterau ac asesiadau. Roedd bron i hanner (48%) yr ymatebwyr yn pryderu ymhellach am recriwtio athrawon a'r cyflenwad athrawon, tablau perfformiad ysgolion ac arolygon.

Materion Ariannol a Chyllido Ysgolion

Gofynnwyd i'r arweinywyr ysgolion a cholegau a oedd y sefyllfa ariannol yn eu hysgol neu goleg wedi effeithio ar eu gallu i ddarparu cwricwlwm eang, cytbwys a pherthnasol i'r disgyblion yn ystod y flwyddyn academaidd 2015/16. Dywedodd bron i dri chwarter yr ymatebwyr (71%) bod eu gallu i gynnig hyn wedi dirywio.

“Am fod yn newidiadau i'r cwricwlwm mor gyflym a niferus, dydy hi ddim yn bosibl talu'r costau i ddarparu'r adnoddau ar gyfer y cyrsiau hyn. Does gan fy myfyrwyr innau ddim gwerslyfrau (leithoedd Tramor Modern) felly maent o dan anfantais o ran dysgu annibynnol ac ati.”

“Dyw gostyngiad mewn adnoddau a chynnydd mewn galw ddim yn sefyllfa resymegol i fod ynddi.” (Gogledd Iwerddon)

“Mae gwasanaethau cymorth yn cael eu tynnu’n ôl yn raddol ac nid oes rhai newydd yn dod i gymryd eu lle.”

“Roedd yn rhaid i ni ddiswyddo rhai aelodau o’n staff, gan ostwng y cyfleoedd i’r myfyrwyr.”

“I osgoi diswyddo staff, rydym wedi gorfod gostwng amrediad y cyrsiau a gynigiwn.”

“Mae nifer yr opsiynau wedi gostwng wrth i nifer y staff ostwng. Mae’r athrawon yn addysgu y tu allan i’w harbenigedd yn rheolaidd.”

“Mae cyfyngiadau ariannol yn rhoi straen ar gyllidebau i brynu adnoddau newydd fyddai’n gwneud y dysgu’n gyffrous.”

Dywedodd 66% o’r arweinwyr ysgolion a cholegau nad oeddent yn hyderus ynglŷn ag iechyd ariannol eu gweithle ar gyfer y flwyddyn academaidd 2016/17.

“Mae fy nghynllun pum mlynedd yn dangos y byddaf mewn dyled. Efallai y bydd raid i mi edrych ar ddiswyddo staff. Rwy’n dibynnu’n drwm ar staff gwirfoddol yn barod i hwyluso gweithgareddau megis dysgu yn yr awyr agored, cefnogi disgyblion a theithiau ac ymweliadau.”

“Mae toriadau parhaus yn golygu ein bod yn gostwng yr adnoddau i’r plant, y staffio a’r cymorth i blant a theuluoedd.”

“Mae ein cyllideb wedi ei gwasgu’n dynn ac nid yw’n caniatáu i ni benodi athrawon profiadol neu ddarparu gweithgareddau cyfoethogi ansawdd.”

“Rydym wedi clywed yn barod ein bod yn gweithio mewn dyled ar gyfer 2015-16 ac nid yw’r staffio’n ddigonol, mae lles/ysbryd y staff yn isel ac felly bydd angen mwy o gyflenwad.”

“Mae gennym ddiffyg ariannol mawr. Rydym wedi wynebu pedair blynedd o ddiswyddiadau, a disgwylw’n ragor eleni.” (Cymru)

“Rydym wedi gorfod torri cyrsiau bach arbenigol am eu bod yn rhy ddrud, felly rydym wedi gostwng ein darpariaeth i’r myfyrwyr hynny oedd yn y perygl mwyaf o gael eu gwahardd.” (Yr Alban)

Recriwtio a Chadw Athrawon

Roedd dros ddwy ran o dair (67%) o'r arweinwyr ysgolion a cholegau wedi disgrifio mwy o anawsterau gyda recriwtio athrawon yn ystod y flwyddyn academaidd 2015/16 nag a gawsent mewn blynyddoedd blaenorol. Yn arbennig, roedd anawsterau yn y meysydd cwricwlwm Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth ac yng Nghyfnod Allweddol 2.

"Rwy'n ymwybodol fod swyddi gwag yn y meysydd hyn na chafwyd unrhyw ddiiddordeb ynddynt, neu fawr ddiiddordeb ynddynt o ran llenwi'r swyddi, er bod ein hysgol yn un a ddymunir."

"Rydym wedi llwyddo i benodi, ond mae xxxxx yn lle poblogaidd. Y gwahaniaeth yw ein bod yn arfer derbyn llawer o geisiadau am bob swydd, ond rydym wedi bod yn galw pob un o'r pedwar ymgeisydd yn ddiweddar ac weithiau dydyn ni ddim hyd yn oed wedi derbyn pedwar cais."

"Mae cyfyngiadau ar y cyllid sydd ar gael yn golygu nad yw'n bosibl cynnig amser neu daliad CAD [Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu]. O ganlyniad, ni chafwyd ymgeiswyr o gwbl am rai swyddi arweinyddiaeth ganol." (Lloegr)

Dywedodd bron i hanner (46%) yr ymatebwyr eu bod wedi cael mwy o anawsterau gyda chadw athrawon cymwysedig eleni nag y gwnaethent y llynedd.

Pan ofynnwyd iddynt a fyddai polisïau addysg y Llywodraeth yn helpu i wella'r recriwtio ac yn helpu i gadw athrawon yn eu hysgol neu goleg, dywedodd 92% o'r arweinwyr ysgolion a cholegau na fyddent.


"Nid yw diswyddiadau enfawr flwyddyn ar ôl blwyddyn yn rhoi darlun positif i ymgeiswyr. Hefyd, wrth i fwy o staff adael – mwy nag 20 yn yr wythnos sy'n dod, does neb newydd yn dod i gymryd lle'r mwyafrif llethol ohonynt, ac mae hyn wedi creu gwir bryder a phoeni yn y gymuned. Nid yw hyn yn helpu i gynyddu nifer y disgyblion sy'n dod i mewn – mae'n dinistrio enw da'r ysgol."

Dywedodd llawer o'r arweinwyr ysgolion a cholegau bod eu sefydliadau'n cymryd camau amrywiol i ymdrin ag anawsterau penodi.

Dywedodd bron i hanner (47%) yr ymatebwyr bod eu hysgol neu goleg yn defnyddio mwy o athrawon o asiantaethau cyflenwi a bod dwy ran o bump (40%) yn penodi athrawon i addysgu mewn meysydd astudio nad ydynt yn arbenigo ynddynt. Hefyd, roedd cynnydd o 28% yn y nifer o athrawon heb gymhwyso oedd yn cael eu defnyddio.

Gofynnwyd i'r arweinwyr ysgolion a cholegau beth fyddai'r strategaethau pwysicaf y gellid eu defnyddio i sicrhau llwyddiant yn y dyfodol o ran recriwtio a chadw arweinwyr ysgolion a cholegau. Dywedodd 88% y byddai'n rhaid cael mesurau mwy effeithiol i ymdrin â llwyth gwaith gormodol ac roedd mwy na'u hanner (54%) yn credu y byddai cynyddu cyflogau a gwobrwyon o gymorth. Dim ond hanner yr ymatebwyr oedd wedi derbyn datblygiad cyflog cynyddol yn y flwyddyn ddiwethaf, 2015/2016. Dywedodd bron i ddwy ran o bump (38%) y byddai diwygio'r system atebolrwydd yn helpu gyda recriwtio a chadw arweinwyr ysgolion a cholegau.

Yn eich barn chi, beth fyddai'r elfen bwysicaf i sicrhau llwyddiant yn y dyfodol o ran recriwtio a chadw arweinwyr ysgolion a cholegau? (Ticiwch hyd at dri dewis os gwelwch yn dda)



Datblygiad Proffesiynol a Gyrfaol i Arweinwyr Ysgolion a Cholegau

Roedd yr arweinwyr ysgolion a cholegau'n bositif iawn ynglŷn â'r pwysigrwydd yr oedd eu hysgol neu goleg yn ei roi i'w datblygiad proffesiynol a gyrfaol, a dywedodd dwy ran o dair (67%) o'r ymatebwyr ei fod yn rhagorol neu'n dda. Ond, pan ofynnwyd iddynt pa mor hyderus oeddent bod eu hysgol neu goleg yn derbyn yr hyfforddiant yr oeddent ei angen i'w galluogi i gwrdd â'u hanghenion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP), ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, roedd gan bron i hanner (49%) yr ymatebwyr bryderon ynglŷn â hyn.

Iechyd a Lles Arweinwyr Ysgolion a Cholegau

Dywedodd mwy na hanner (51%) yr arweinwyr ysgolion a cholegau nad oedd eu gweithle'n cymryd eu hiechyd a'u lles o ddifrif.

Mae tri chwarter (75%) yr ymatebwyr o'r farn bod eu llwyth gwaith yn ormodol ac anhylaw a dywedodd mwy na'u hanner (54%) bod eu horiau gwaith wedi cynyddu'n sylweddol yn y flwyddyn ddiwethaf, gyda mwy na thraean (34%) yn dweud eu bod wedi gweld cynnydd bychan iawn.

Dywedodd 80% o'r arweinwyr ysgolion a cholegau nad oedd ganddynt gydbwysedd rhesymol rhwng bywyd a gwaith.

“Dw i'n bennaeth ar ysgol fach ac mae gennyf ymrwymadau addysgu. Does gen i ddim cynorthwydd na dirprwy am na allaf fforddio talu rhagor am un. Mae'r disgwyliadau ynghylch fy rôl yn afrealistig ac mae disgwyliadau'r Llywodraeth yn rhoi gofynion cynyddol ar fy staff sydd wedyn yn effeithio arnaf i. Mae lefelau'r straen yn mynd yn wirion ac rwyf wedi fy holi fy hun yn ddifrifol a yw'r gwaith werth ei wneud. Fel pennaeth, does gen i ddim boddhad o gwbl yn fy swydd! Fy unig arlliw o fwynhad yw pan fyddaf yn treulio amser gyda'r plant.”

“Mae'r llwyth gwaith a'r atebolrwydd yn rhy drwm ac yn niweidio fy iechyd fy hun a'r berthynas sydd gennyf gyda'r staff a'r disgyblion. Mae'r llywodraeth yn rhoi gwerth llawer rhy isel i athrawon a'r unig reswm i barhau hyd ymddeoliad yw ei bod hi'n anodd newid llwybr gyrfaoel yn fy mhumdegau cynnar ac oherwydd y byddaf yn colli'r wefr o addysgu myfyrwyr.”

“Mae'r oriau hir, oddeutu 70 awr o waith yr wythnos, a straen atebolrwydd, yn gwneud y gwaith yn ddiddiwedd.”

Pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn credu y byddai polisïau addysg y Llywodraeth yn helpu i ymdrin â llwyth gwaith yr arweinwyr ysgolion a cholegau, dywedodd 94% o'r ymatebwyr na fyddent.

“Dw i'n bennaeth a, rhai diwrnodau, dw i'n cael y pwysau'n annioddefol. Dw i wedi datblygu ecsema oherwydd straen ac yn cael profion i weld oes gen i friwiau'r stumog. Rwyf wedi bod yn y swydd ers blwyddyn. Dw i'n bwriadu gadael mewn pum mlynedd ar y mwyaf ac ni allaf weld fy hun yn treulio gweddill fy mywyd gwaith gyda'r lefel uchel o bryder a ddaw gyda'r swydd.”

“Does gen i ddim cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, mae'r straen yn barhaol a daw pwysau cyson gan y pennaeth i baratoi ar gyfer Ofsted. Dw i'n wynebu oriau gwaith afrealistig a bwlio yn y gweithle.”

“Dw i ddim yn credu yn yr hyn y mae'r Llywodraeth yn gofyn i ni ei wneud fel proffesiwn. Mae'n achosi straen a phryder cynyddol i'r disgyblion a'r staff yn yr ysgolion.”

“Mae'r diwylliant o feirniadu'n ddi-ddiwedd yn effeithio'n fawr ar ysbryd y gweithlu. Dw i'n mwynhau arwain ysgol gynhwysol ond mae'r Llywodraeth yn ei gwneud hi'n gynyddol anodd i wneud hyn yn dda.”

Casgliad

Mae'r gwaith ymchwil gan NASUWT yn dangos nad oes gan y mwyafrif llethol o'r arweinwyr ysgolion a cholegau hyder ym mholisiau addysg y Llywodraeth. Nid ydynt yn hyderus bod y Llywodraeth yn deall y pwysau ar arweinwyr ysgolion a cholegau sy'n wynebu heriau bob dydd o ganlyniad i newidiadau yn y ddeddfwriaeth a diwygiadau.

Mae gan yr arweinwyr ysgolion a cholegau bryderon difrifol ynglŷn â dyfodol ariannol eu hysgolion a'u colegau ac maent yn credu y bydd sefyllfaoedd ariannol sy'n gwaethygu'n effeithio ar eu gallu i wneud eu gwaith. Yn ôl nifer o arweinwyr ysgolion a cholegau, mae ansicrwydd ariannol parhaus, ynghyd â gostyngiadau mewn cyllid mewn termau real, yn gwneud y dasg o arwain a rheoli ysgolion a cholegau'n amhosibl.

Mae'r dystiolaeth o'r arolwg hwn yn dangos bod raid i'r Llywodraeth, os ydynt eisiau recriwtio a chadw arweinwyr newydd i ysgolion a cholegau, ymdrin â'r materion hynny sy'n gwneud swyddi arweinyddiaeth yn llai a llai atyniadol a gwrando ar bryderon yr arweinwyr am lwyth gwaith, cyllid ac ysbryd isel, ac ymateb i'r pryderon hynny.

Mae'r dystiolaeth o Arolwg 'Materion Arweinyddiaeth / Leadership Matters' NASUWT yn tynnu sylw at y ffaith fod raid i'r Llywodraeth weithredu ar unwaith i gefnogi arweinwyr ysgolion a cholegau, neu bydd ansawdd yr addysg a'r llwyddiant o ran recriwtio a chadw arweinwyr ysgolion a cholegau'n cael ei niweidio'n ddifrifol.

Lloegr

03330 145550

advice@mail.nasuwt.org.uk

www.nasuwt.org.uk

Gogledd Iwerddon

028 9078 4480

rc-nireland@mail.nasuwt.org.uk

www.nasuwt.org.uk

Yr Alban

0131 226 8480

rc-scotland@mail.nasuwt.org.uk

www.nasuwt.org.uk

Cymru

029 2054 6080

rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk

www.nasuwt.org.uk

NASUWT
Yr Undeb Athrawon



ARWEINYDDIAETH